S4/C Calon Cenedl Heart of the Nation

25.09.13

Casia Wiliam
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 02920 741214

**Erthygl i'r Wasg Press Article**

# Bethan a Russell yn annog bysedd gwyrddion yn Nyffryn Nantlle

Mewn cyfres arddio newydd sbon ar S4C, bydd Russell Jones a Bethan Gwanas yn mynd ar gefn beic tair olwyn i chwilio am bobl sy'n barod i dyfu llysiau am y tro cyntaf.

Mae Bethan a Russell eisoes yn gyfarwydd i wylwyr S4C fel cyflwynwyr y gyfres arddio Byw yn yr Ardd gynt, ac mi fydd y ddau'n torchi llewys ac yn mynd i'r afael â phridd a photiau a phethau gwyrdd yn y gyfres hon hefyd. Ond mae **Tyfu Pobl** yn fwy na chyfres am arddio; mae hi'n gyfres am bobl, am ddysgu, am newid ac am dyfu.

"Ar **Tyfu Pobl** mi fyddwn ni'n mynd at bobl a theuluoedd sydd erioed wedi tyfu llysiau o'r blaen. Mae o'n syniad cwbl ddiarth iddyn nhw i gyd, ond mi fyddwn ni'n dangos sut mae mynd ati i dyfu eu bwyd eu hunain ac yn cael dipyn o hwyl tra 'dyn ni wrthi. Mi gewch chi hwyl yn fy ngweld i ar y beic 'ma mae hynny'n saff!" meddai Bethan.

Er yr holl erddi yn Nyffryn Nantlle, ychydig iawn o'r boblogaeth sy'n tyfu llysiau, ond mae Russell a Bethan yn benderfynol o newid hyn. Does 'na ddim llawer o ddiddordeb i ddechrau, ond os oes rhywun yn gallu perswadio pobl i arddio, yna mae'r ddau yma'n siŵr o wneud!

Yn eu helpu mae Craig ap Iago, cydlynydd cynllun Prosiect B3, menter sydd wedi'i hariannu gan y Loteri Genedlaethol sy'n ceisio sicrhau bod mwy o fwyd lleol yn cael ei dyfu, ei werthu a'i fwyta yn Nyffryn Nantlle.

"Mi fyddwn ni'n mynd ati i geisio tyfu pob math o lysiau yng ngerddi Dyffryn Nantlle, ac ychydig o flodau hefyd," meddai Bethan. "Dwi'n meddwl bod blodau yn bwysig i wneud i ardd edrych yn neis, ac er bod Russell yn dweud nad oes modd i ti fwyta blodau, dwi'n dadlau bod mwy i fywyd na be' ti'n ei roi yn dy fol!"

A fydd y criw yn llwyddo i droi bysedd yn wyrddion yn Nyffryn Nantlle tybed?

"Be ddyweda i 'dwch? Mae rhai yn cael gwell hwyl arni na'i gilydd! Ond yr agwedd fwya' difyr i mi ydy gweld y bobl, yn ogystal â'r llysiau, yn blodeuo. Maen nhw'n magu hyder, yn treulio mwy o amser yn yr awyr iach efo'u teuluoedd a'u cyfeillion, ac wrth reswm, yn mwynhau bwyta'n iach. Ac mae'r pleser sy'n dod o fwyta rhywbeth rydych chi wedi ei dyfu eich hun yn amhrisiadwy.

"Mae hon yn gymaint mwy na chyfres garddio; mae hi am bersonoliaethau a phobl. Ac mae'r gwylwyr yn bendant yn mynd i chwerthin, a dysgu hefyd nad ydy pethau yn gweithio bob tro. Mae'n rhaid trio eto pan ti'n cael dy siomi. Dal ati - dyna be' ydy garddio."

**Tyfu Pobl**
**Nos Fawrth 8 Hydref 8.25pm, S4C**
**Isdeitlau Saesneg**
**Gwefan: s4c.co.uk**
**Ar alw: s4c.co.uk/clic**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**